

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau 5 Rhagfyr 2019

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Paul Barrett (PB)
Geoff Williams (GW)
Jillie Gardiner (JG)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC - Dros Dro)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Jason Lawday (JL) – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Rob Williams (RW) – Trail Riders Fellowship (TRF)
Nigel Bailey (NB) – Cerdded Iach Sanclêr
Phillip Morgan (PM) - Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC
David Bleines (DB) - Swyddog Pobl a Lleoedd CNC, De-orllewin

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Martin Murray (MM)
Michael Jones (MJ)
David Stacey (DS)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Y Cynghorydd Hazel Evans
Steve Pilliner (CSC)
Samara Hicks (CSC)

Yn Absennol: Jane Evans

Glyn Evans
Gerald Brown

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Gaerfyrddin

**Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
|--|------------------|
| <p>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y sylwedyddion/ymgynghorwyr newydd.</p> | |
| <p>Eitem 2 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</p> <p>CF – Ymddiswyddodd Jim Shadbolt o'r Fforwm Mynediad Lleol MH/CF - rhoddwyd diolch iddo am ei gyfraniad i'r fforwm</p> | |
| <p>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.</p> | |
| <p>Eitem 4 – Materion sy'n codi o'r cofnodion - na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <p><u>Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus</u></p> <p>CF – Yn dilyn sylw gan y Fforwm Mynediad Lleol, cynigwyd datganiadau i'r wasg/cyfyngau i atgyfnerthu'r pwerau a orfodir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chŵn. Cynigodd y swyddog gorfodi hefyd fynychu'r Fforwm Mynediad Lleol i ateb cwestiynau.</p> <p>MH/KB – dim angen, diolch am y cynnig.</p> <p><u>Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</u></p> <p>MH – Da gweld bod sylwadau'r Fforwm Mynediad Lleol wedi'u hystyried, rhoddwyd diolch i CF, rhoddwyd diolch i CSC am lunio cynllun.</p> <p>KB – Dylai'r Fforwm Mynediad Lleol adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn flynyddol i weld faint sy'n cael ei gyflawni a rhoi cyngor os oes angen.</p> <p>CF – Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned i gael gwybod am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ym mis Ionawr. Ystyried digwyddiad lansio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn y Gwanwyn,</p> <p><u>Data Arolwg Llwybrau Eraill â Mynediad i'r Cyhoedd (ORPA)</u></p> <p>CF – Swyddog Datblygu Systemau Priffyrdd wedi cadarnhau y gellir uwchlwytho fideo data arolwg i'r system WDM ar gyfer eu cofnodion.</p> <p><u>Gosod Arwyddbyst ar Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT)</u></p> <p>CF – Dim ond MH sydd wedi ymateb i'r blaenoriaethu o ran gosod arwyddbyst. Os na dderbynnir unrhyw ymatebion pellach, bydd arwyddbyst yn dechrau cael eu gosod ar sail gwybodaeth CSC a MH yn unig.</p> <p>KB – a fydd arwyddion arnynt yn ogystal ag arwyddion o'r ffordd.</p> <p>CF - Ddim yn awtomatig, nid yw arwyddbyst yn statudol, cyflawnir hyn os oes angen.</p> | CF |

MH – System Leoli Fyd-eang (GPS) yn cael ei defnyddio'n helaeth nawr, arwyddbyst yn annhebygol o at arwain at fwy o ddefnydd, gweld sut mae'r prosiect yn mynd.

Pen-bre

CF – Datganiad gan reoli traffig – Ni ddylid defnyddio Talu ac Arddangos ar gyfer gorlif fan geffylau.

KB - Cwestiwn ynghylch cyfreithlondeb car/4x4 a threlar mewn man parcio fan geffylau, cyngor yr heddlu'n awgrymu nad yw cerbydau a threlars yn cael eu hystyried yn fasnachol.

CF – Arferai CNC gael maes parcio mawr ger pont y rheilffordd ond lleihaodd ei faint nifer o flynyddoedd yn ôl. Gan fod CNC yn gwerthu trwyddedau blynyddol i farchogion er mwyn iddynt ddefnyddio'r goedwig, a ddylent hefyd ystyried darparu lleoedd parcio yn hytrach na dibynnu ar barcio cyfyngedig CSC?

PM – Bydd yn ymchwilio i'r maes parcio presennol, rhesymau dros leihau maint.

Fferm Wynt Brechfa

JG – Mae Severn Wye wedi ymddiswyddo o banel cronfa Fferm Wynt.

Mae'r gronfa ar gyfer datblygiadau a arweinir gan y Gymuned, digwyddiad i ddod i weithio gyda grwpiau cymunedol i wneud ceisiadau cynaliadwy – rhaid ychwanegu gwerth at y gymuned.

Defnyddiol pe gallai aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol fynychu'r digwyddiad i gynrychioli'r Fforwm a buddiannau ei ddefnyddwyr.

PM – A allai aelod o'r gronfa fynychu'r Fforwm Mynediad Lleoli i roi cyflwyniad, Moisha yw rheolwr y gronfa, bydd yn anfon cyfeiriadau e-bost CF a MH.

JG – Digwyddiad i arddangos prosiect llwyddiannus yn cael ei gynllunio.

GW – Ni ddylai'r Fforwm Mynediad Lleol roi cymorth heb ddigon o wybodaeth gefndirol.

PM – Mae gwefan sy'n rhoi manylion am y gronfa.

MH – Cyflwyniad gan y Fforwm Mynediad Lleol i'w drefnu a dylai aelodau gysylltu â Jillie i ofyn a hoffai gynrychioli buddiannau'r fforwm yn y digwyddiad ym mis Ionawr.

Rhwystrau CNC

MH – Mae'r mater bellach yn cael ei drafod yng nghyfarfod Grwpiau Defnyddwyr Cilffyrdd (BUG).

PM – Rhwystrau i'w cau yn unig yn dilyn cyfarwyddyd uniongyrchol gan yr Heddlu. Deiliad allweddi mewn argyfwng hefyd yn cael ei drafod. Gellid ychwanegu Fforwm Mynediad Lleol fel ymgynghorai.

PM

PAWB/CF

Eitem 5 – Beicio ar Lwybrau Troed

| | |
|---|---|
| <p>CF – eitem wedi'i gohirio, tebygol o gael ei thrafod mewn cyfarfod annibynnol.</p> | |
| <p>Eitem 6 – Tynnu Rhwystr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol</p> <p>CF yn darllen diweddariad ysgrifenedig gan Gynllunydd Trafnidiaeth CSC</p> <p>KB – Pa rwystrau fydd yn cael eu defnyddio yn lle hynny? A yw defnydd anghyfreithlon o feiciau modur yn debygol o gynyddu os caiff mynediad ei ehangu?</p> <p>Bydd CF yn rhoi adborth ar ymholiadau.</p> | <p>CF</p> |
| <p>Eitem 7 – Prosiect Llwybrau i Bobl Cymdeithas y Cerddwyr</p> <p>CF - yn dilyn cyflwyniad diweddar Oliver Wickes i'r Fforwm Mynediad Lleol, mae CSC wedi cyfarfod ag Oliver eto i wthio'r prosiect yn ei flaen yn y Sir. Mae 4 Cyngor Cymuned yn awyddus i ymuno â'r cynllun yn barod.</p> | |
| <p>Eitem 8 – Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p>Darllenodd CF ddiweddariad ysgrifenedig gan Sam Palmer</p> <p>PB – Nid yw'n derbyn diweddariadau er iddo gofrestru ar gyfer gwybodaeth.</p> <p>CF – awgrymodd y dylid tynnu Llwybr Dyffryn Tywi o'r agenda am y tro, i'w drafod dan Unrhyw Fater Arall yn lle fel y bo'n briodol.</p> <p>Pawb yn cytuno</p> | |
| <p>Eitem 9 – Adroddiadau ar Faterion</p> <p>Rhoddodd RL grynodedb o'i ddadansoddiad chwarterol, a fydd yn cael ei ddsbarthu i aelodau drwy e-bost.</p> <p>MH – Sawl arwydd sy'n cael eu gosod yn flynyddol?</p> <p>CF – Dylai Alan Warner gael cofnod.</p> <p>RL – A yw rhai sydd wedi'u difrodi yn cael eu disodli?</p> <p>MH – A allwn gael adroddiad gan Alan W?</p> <p>Bydd CF yn gwneud cais.</p> <p>Awgrymodd CF y dylid parhau i roi gwybod am faterion ond dylai fod rhywbeth ystyrion o ran cyngor i CSC, efallai bob blwyddyn, yn dod allan o'r adroddiadau yn hytrach na bod y gwerthusiad chwarterol ond yn cael ei nodi.</p> <p>Cytunodd pawb, MH a RL i ddatblygu nodyn cyngor bob blwyddyn.</p> | <p>MH</p> <p>CF</p> <p>MH/RL</p> |
| <p>Eitem 10 - Cynhadledd Fforymau Mynediad Lleol Cymru</p> <p>Darparodd CF grynodedb o gynnwys y gynhadledd a bydd yn dosbarthu cofnodion i'r aelodau ar ôl i CNC eu cyhoeddi.</p> <p>Diddordeb mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chysylltu â'r Fforwm Mynediad Lleol, estyn gwahoddiad i'r BGC lleol</p> | <p>CF</p> <p>CF</p> |

| | |
|--|-----------------------------------|
| <p>Eitem 11 – Hyrwyddo Llwybrau Cerdded y Sir</p> <p>Darllenodd MH e-bost gan Huw Parsons ynghylch hyrwyddo cerdded yn 2020.</p> <p>RL – cynigwyd prawf o dechnegau hyrwyddo gwell, cyfle a gollwyd.</p> <p>GW - mae 4 ap lle gellir cael Teithiau Cerdded Sir Gaerfyrddin.</p> <p>KB - hoffai wybod pa ddulliau y mae CSC yn eu defnyddio</p> <p>RL – gall hyrwyddo gyd-fynd â llawer o grwpiau a phrosiectau, mae angen iddo fod yn hawdd fel byrddau dehongli, ffeiliau gpx, "gwneud mynediad yn hygyrch"</p> <p>KB – a allwn ni ofyn am gael bod yn bresennol?</p> <p>DS – Sut mae Llwybrau'r Sir yn dod i fodolaeth?</p> <p>CF – datblygwyd y rhan fwyaf ohonynt gan ddefnyddio llawer o gyllid drwy'r 1990au a'r 2000au. Derbyniwyd awgrymiadau ond mae angen iddynt fod yn gynaliadwy ac yn ddeniadol i ddefnyddwyr.</p> | <p>CF/SP</p> |
| <p>Eitem 12 – Staff Mynediad i Gefn Gwlad</p> <p>CF yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol am y Parcmon yn symud i'r adran amgylchedd.</p> <p>MH - A ellir gwahodd yr is-adran Hamdden i'r Fforwm Mynediad Lleol i amlinellu ei rôl o ran darpariaeth mynediad?</p> | <p>CF</p> |
| <p>Eitem 13 - Unrhyw Fater Arall</p> <p>KB – <u>Mynediad i Geffylau ar Dir CNC</u>; roedd problemau a adroddwyd i CSC yn arfer cael eu datrys gyda chymorth gan CNC pan fo'n bosibl, maent bellach yn ddyletswydd ar CSC yn unig, a yw CNC yn dal i fod yn barod i helpu?</p> <p>PM - bydd yn rhoi sylw i'r mater hwn.</p> <p>CF - <u>Datganiadau Ardal</u>; gweithdy yn cael ei drefnu yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer pob Fforwm Mynediad Lleol yn rhanbarth y De-orllewin. Bydd yn cael ei gynnal gan David Bleines, dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau.</p> <p>DB – Bydd yn dosbarthu gwahoddiad i'r holl aelodau gan roi amlinelliad o nodau'r digwyddiad.</p> <p>JG – <u>Cyfeirbwyntiau Coedwigaeth</u>, mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer arwyddbyst ym Mrechfa yn unol â'r system rifo Ffrengig, i ailgyflwyno syniad prosiect i CNC i'w gymeradwyo.</p> <p>PM – mae gan CNC rai pryderon, cyffyrdd heb goed.</p> <p>JG – gellir gosod pyst os nad oes coed.</p> | <p>PM</p> <p>DB</p> |

| | |
|---|------------------|
| <p>PM – mae ymrwymiad gan ddatblygwr fferm wynt i ddatblygu llwybrau ag arwyddion, gellid cyfuno 2 brosiect yn hytrach na rhedeg 2 gynllun ar wahân.</p> <p>MH – gwnewch yn siŵr mai dyna mae defnyddwyr ei eisiau, mae'n bwysig i gadw llinellau cyfathrebu ar agor.</p> <p>JG – nid yw datblygwyr fferm wynt bellach yn gyfrifol am osod arwyddbyst wrth fynedfeydd coedwigaeth i ddarparu gwybodaeth am fynediad, CNC sydd bellach yn gyfrifol.</p> <p>PM – bydd yn trafod gyda datblygwyr ym mis Ionawr.</p> <p>JG – Nid yw cwestiwn ynghylch yswiriant <u>Atebolrwydd Cyhoeddus Fferm Wynt Brechfa</u> wedi'i ateb yn foddhaol o hyd.</p> <p>PM – mae prawf o'r yswiriant wedi'i ddarparu.</p> | <p>PM</p> |
| <p>Eitem 14 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol</p> <p>Mynediad Sustrans i bawb</p> <p>Marchnata a Hyrwyddo Llwybrau'r Sir/Cerdded</p> <p>Rôl hamdden mewn Mynediad</p> <p>Arwyddbyst hawliau tramwy cyhoeddus</p> <p>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Cronfa Gymunedol Brechfa</p> | |
| <p>Eitem 18 - Cyfarfodydd Nesaf</p> <p>12 Mawrth 2020 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin</p> <p>11 Mehefin 2020 - Canolfan Tywi, Llandeilo</p> <p>10 Medi 2020 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin</p> <p>3 Rhagfyr 2020 - Canolfan Tywi, Llandeilo</p> | |